



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

Dychwelyd i'r ysgol : Blynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 - 'Ail-gydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr Haf a mis Medi'. Mi fyddwch yn derbyn gwybodaeth ddydd Llun yn nodi pa ddiwrnod fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol o Fehefin 29ain ymlaen. Bydd yr ysgol ar agor am dridiau yr wythnos sef dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau. Gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid i dderbyn barn yr athrawon dosbarth o safbwynt y dosbarthiad, mi fyddai newid un aelod o'r grŵp yn medru effeithio ar gyd-bwysedd y grŵp hynny ac yn gallu dylanwadu ar les disgyblion eraill. Ni fydd modd i ni greu'r grŵp perffaith i'ch plentyn a fydd yn cynnwys pob ffrind.

Meithrin a Derbyn - Mae canllawiau'r Awdurdod Addysg yn nodi na fydd disgyblion Meithrin a Derbyn yn mynychu'r ysgol yn ystod y bythefnos gyntaf o ail agor (Mehefin 29ain – Gorffennaf 10fed) mi fydd mwy o wybodaeth i ddilyn er mwyn ceisio sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gwrrdd â'r staff cyn diwedd y tymor.

Hwb Gofal plant (gweithwyr y rheng flaen) Mi fydd Hwb gofal plant yn yr ysgol pob ddydd Mercher a dydd Gwener. Rydym yn anelu i sicrhau fod plant gweithwyr y rheng flaen yn medru mynychu'r ysgol drwy gydol yr wythnos. Mi fydd hyn yn golygu un diwrnod yn eu dosbarth arferol ac yna gweddill y diwrnodau wedi eu rhannu rhwng yr Hwb a'r dosbarth arferol os oes lle. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn medru cynnig lle yn y dosbarth drws nesaf ar gyfer disgyblion o'r un flwyddyn os oes lle. Rydym wedi derbyn enwau'r plant hynny ac wedi sicrhau fod ystafell y Meithrin yn cael ei defnyddio ar gyfer yr Hwb. Mi fyddwn yn parhau i ofyn i rieni / gwarcheidwaid i ollwng eu plant tu allan i gatiâu'r ysgol. Mi fydd aelodau o staff yr ysgol fydd yn goruchwyllo'r Hwb yn cwrdd â'r plant ger y brif gât ac yn eu hebrwng i'r Hwb. Mi fydd angen eu casglu o brif ddrws y Meithrin ar ddiwedd y dydd am 3.30.

Cynllunio'r ffordd ymlaen - Mae'r staff wedi creu system un ffordd ac wedi ail-drefnu'r dosbarthiadau a'r safle er mwyn anelu at ymbellhau cymdeithasol o 2m. Mi fyddwn yn parhau i ofyn i rieni / gwarcheidwaid i ollwng eu plant tu allan i gatiâu'r ysgol.

Amser cyrraedd yr ysgol

- 8.45 - Blwyddyn 5 a 6 yn cyrraedd y safle (gyda brodyr neu chwiorydd iau)
- 9.00 - Blwyddyn 3 a 4 yn cyrraedd y safle (gyda brodyr neu chwiorydd iau)
- 9.15 - Blwyddyn 1 a 2 yn cyrraedd y safle

Cyrraedd y safle - Wrth gyrraedd gât yr ysgol mi fydd staff yr ysgol yn cymryd tymheredd eich plentyn gyda thermometr is-goch, i'r rhai sy'n cyrraedd mewn ceir mi fyddwn yn gwneud hyn wrth i'ch plentyn/ plant adael y cerbyd. Mi fyddwn yn ceisio gwneud hyn mewn ffordd mor plentyn gyfeillgar â phosib er mwyn creu awyrgylch groesawgar. Fodd bynnag os yw tymheredd eich plentyn yn uwch na 37.5°C yna ni fydd modd i'ch plentyn gael mynediad i'r safle. Mi fyddwn yn ail gymryd y tymheredd gyda thermometr clust er mwyn cael ail ddarlleniad. Os fydd yr ail ddarlleniad yn parhau i fod yn uchel yna mi fydd angen i chi ddychwelyd adref.

Cyrraedd y dosbarth – yn dilyn mynediad drwy ddrws ochr y Neuadd (y drws coch) mi fydd staff cynorthwyol yr ysgol yn sicrhau fod pob plentyn yn golchi eu dwyllo yn drwyadl (gellir defnyddio hylif gwrth facteria hefyd os y dymunwch) cyn hebrwng disgyblion ar hyd llwybr un ffordd yr ysgol i'w dosbarthiadau lle fydd yr athrawon yn eu disgwyl – Mi fyddaf yn gosod ambell glip fideo ar wefan yr ysgol yn ystod yr wythnos nesaf er mwyn egluro hyn yn fanylach.

Yn y dosbarth – mae'r dosbarthiadau wedi eu hail drefnu er mwyn sicrhau fod ardal weithio pob plentyn o leiaf 2m oddi wrth unrhyw aelod arall o'r dosbarth. Mae hyn yn golygu ein bod yn medru derbyn rhwng 6 ag 8 disgybl ym mhob ystafell ddosbarth. Mi fydd y gweithgareddau dosbarth yn rhoi ffocws ar les y disgyblion, trafod gweithgareddau'r wythnos ac adolygu trefniadau dysgu ar gyfer gweddill yr wythnos o ddysgu o adref. Cofiwch eich cäs pensiliau - mae'n bosib fod eich cäs pensiliau wedi ei adael yn yr ysgol ers mis Mawrth, os hynny mi fyddant ar gael yn y dosbarth.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Amser egwyl – mi fydd yr amserau egwyl / cinio yn cael eu gwasgaru er mwyn sicrhau fod dwy flwyddyn addysgol yn cael egwyl ar yr un amser. Mi fydd grwpiau dosbarth yn cael egwyl mewn ardal benodol o'r campws ee ardal yr ardd , ardal yr iard, ardal y cae 1 (ochr y Clwb Rygbi) ac ardal y cae 2 (ardal y pafiliwn gwyn) mi fydd hyn yn edrych rhywbeth fel hyn – 10:15 egwyl Bl 5 a 6, 10:30 egwyl Bl 3 a 4, 10:45 – egwyl Bl 1 a 2, mi fydd trefn debyg yn digwydd amser cinio ac egwyl y prynhawn.

Trefniadau cinio - Mi fydd angen i bob plentyn ddod â phegyn bwyd (yn cynnwys pecyn iâ) a dŵr pob diwrnod. Mi fydd disgyblion yn bwyta yn y dosbarth neu tu allan os fydd y tywydd yn sych.

Gadael yr ystafell ddosbarth – wrth i'r ddisgyblion adael yr ystafell ddosbarth ar gyfer mynd i'r toiled, amser egwyl neu ddychwelyd i'r man casglu ar y cae mi fydd yr athrawon neu'r cynorthwywyr dysgu yn gwneud eu gorau i sicrhau ein bod yn parchu y rheol 2m.

Casglu eich plant o'r ysgol – Rydym wedi trefnu ardal casglu plant ar gae'r ysgol, mi fydd staff yr ysgol yn hebrwng y disgyblion i'r cae er mwyn i chi eu casglu. Mi fydd angen i rieni / gwarcheidwaid gael mynediad i'r ysgol drwy'r gât feics (y gât bren wrth ymyl y brif gât haearn) ac yna mynd drwy'r gât ger y gysgodfan beics i'r cae. Yn yr ardal casglu plant mi fydd angen i rieni / gwarcheidwaid barchu'r rheol 2m a sicrhau ymbellhau cymdeithasol priodol. Yn dilyn casglu eich plentyn / plant dylech adael y cae drwy'r gât ddwbl ger y pafiliwn gwyn. Mi fyddaf yn gosod ambell glip fideo ar wefan yr ysgol yn ystod yr wythnos nesaf er mwyn egluro hyn fanylach.

Trefn casglu plant

3 o'r gloch – Blwyddyn 5 a 6 yn cael eu casglu o'r cae (gyda brodyr neu chwirydd iau)
3.15 - Blwyddyn 3 a 4 yn cael eu casglu o'r cae (gyda brodyr neu chwirydd iau)
3.30 - Blwyddyn 1 a 2 yn cael eu casglu o'r cae.

Dysgu o adref – mi fydd dysgu o adref drwy weithgareddau ar Teams neu wefan yr ysgol yn parhau i bawb fel y prif gyfrwng dysgu ac addysgu.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Cofion gore atoch,

R C Williams, Pennaeth, 19/06/2020

Cliciwch ar y ddolen isod ar gyfer gwyllo fideo sy'n egluro'r llythyr hwn i'r plant:

<https://www.i2e.com/ysgol-gymraeg-aberystwyth/RobertW/Dychwelyd+ir+ysgol/Fideo+dychwelyd+ir+ysgol+1.mp4>

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - we hope you are keeping safe and well and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

Return to school: Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 - '**Check in, catch up and get ready for Summer and September**'. On Monday you will receive information on what day your child will be attending school from 29th June onwards. The school will be open for three days a week, Monday, Tuesday and Thursday. Parents / guardians are kindly asked to accept the views of the class teachers regarding the way pupils have been grouped, changing one member of the group could affect the balance of that group and can affect the welfare of other pupils. We will not be able to create the perfect group for your child that will include all friends.

Nursery and Reception - Education Authority guidance states that Nursery and Reception pupils will not attend school during the first two weeks of re-opening (June 29th - July 10th) more information will follow in order to try and secure opportunities for pupils to meet the staff before the end of term.

Childcare Hub (frontline workers) - there will be a Childcare Hub at school every Wednesday and Friday. We aim to ensure that children of frontline workers are able to attend school throughout the week. This will mean one day in their normal class and then the rest of the days divided between the Hub and their normal class if there is space available. We may also be able to offer a place in the classroom next door for pupils of the same year. We have received the names of those children and ensured that the Nursery room is used for the Hub. We will continue to ask parents / guardians to drop their children outside the school gates. Members of the school staff supervising the Hub will meet the children at the main gate and escort them to the Hub. They will need to be collected from the main Nursery door at the end of the day at 3.30.

Planning the way forward - Staff have created a one-way system and re-organized the classes and site to aim for a social distance of 2m. We will continue to ask parents / guardians to drop their children outside the school gates.

Time to arrive at school

8.45 - Years 5 and 6 arrive on site (with younger siblings)

9.00 - Years 3 and 4 arrive on site (with younger siblings)

9.15 - Years 1 and 2 arrive on site

Arriving at school - On arrival at the school gate the school staff will take your child's temperature with an infrared thermometer, for those arriving in cars we will do this as your child leaves the vehicle. We will try to do this in a child friendly way in order to create a welcoming atmosphere. However, if your child's temperature is above 37.5°C then your child will not be able to access the site. We will repeat the temperature check with an ear thermometer for a second reading. If the second reading remains high then you will need to return home.

Getting to class - following entry through the side door of the Hall (red door) the school support staff will ensure that all children wash their hands thoroughly (anti-bacterial fluid can also be used if you wish) before escorting pupils along the school one-way route to their classrooms where the teachers will expect them - I'll be posting some video clips on the school website next week to explain this in more detail.

In the classroom - the classes have been rearranged to ensure that each child's working area is at least 2m away from any other member of the class. This means we can admit between 6 and 8 pupils in each classroom. Class activities will focus on pupils wellbeing, discuss the week's activities and review learning arrangements for the rest of the week of home learning. Remember your pencil case - your pencil case may have been left at school since March, if so then they will be available in class.

Break time - the break / lunch times will be spread out to ensure that two educational years have break at the same time. Class groups will have their break in a specific area of the campus eg garden area, yard area, field area 1 (Rugby side) and field area 2 (white pavilion area) this will look something like this - 10:15 Yr 5 and 6 break, 10:30 Yr 3 and 4 break, 10:45 - Yr 1 and 2 break, similar arrangements will take place at lunchtime and afternoon break.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Lunch arrangements - Every child will need to bring a packed lunch (including an ice pack) and water each day. Pupils will eat in their classes or outside the classroom if the weather is dry.

Leaving the classroom - as pupils leave the classroom to go to the toilet, break time or return to the collection point on the field the teachers or teaching assistants will do their best to ensure the 2m rule.

Collecting your children from school - We have set up a children's collection area on the school field, school staff will escort the pupils to the field for you to collect. Parents / guardians will need to enter the school via the bike gate (the wooden gate next to the main iron gate) and then pass through the gate by the bike shelter to the field. In the child collection area parents / guardians will need to respect the 2m rule and ensure appropriate social distancing. After collecting your child /children you should leave the field through the double gate by the white pavilion. I will be posting some video clips on the school website next week to explain this in more detail.

Child collection procedure

3 o'clock - Years 5 and 6 collected from the field (with younger siblings)

3.15 - Years 3 and 4 collected from the field (with younger siblings)

3.30 - Years 1 and 2 collected from the field.

Learning from home - learning from home through activities on Teams or the school website will continue to be the main medium of learning and teaching.

Best wishes to you all,

R C Williams, Headteacher, 19/06/2020

Click on the link below to watch a video explaining this letter to the children:

<https://www.i2e.com/ysgol-gymraeg-aberystwyth/RobertW/Dychwelyd+ir+ysgol/Fideo+dychwelyd+ir+ysgol+1.mp4>